**Cofnodion Pwyllgor Clwb Mynydda Cymru a gynhaliwyd nos Lun, 1 Medi, 2025 drwy gyfrwng Zoom**

**Presennol**: Elen (EH)**(Cadeirydd),** Iolo Roberts (IPR),Iolo ap Gwynn (IAG),Dwynwen (DP), Richard (RR), Eurig (EJ), Dilys (DAP), Steve (SW), Erwyn (ERJ), Mathew (MW), Gethin (GR), Dewi (DH), Keith (KR)

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **GWAELEDD**<br><br>Cyfeiriodd Elen at waeledd Sw, gwraig Richard, ac ar ran y Pwyllgor dymunodd adferiad llwyr a buan iddi. | |
| **2.** | **COFNODION**<br><br>Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Mai, 2025 fel rhai cywir.<br><br>Yn codi:<br><br>A. Defibs<br><br>Adroddwyd gan EH ei bod wedi galw yn swyddfa yswiriant NFU yng Nghaernarfon i holi am y posibilrwydd o gael yswiriant ar gyfer y peiriannau rhag difrod/colled a chael ar ddeall na fyddent yn barod i gynnig yswiriant ar gyfer hyn.<br><br>B. Polisiau Asesu Risg.<br><br>Adroddodd DH y byddai yn edrych ar y polisïau i weld os ydynt yn cwrdd â'r gofynion o safbwynt gweithgareddau dringo/sgramblo ac os oes angen ystyried eu diwygio.<br><br>C. Canllawiau Teithiau Preswyl<br><br>Adroddodd KR ei fod wedi addasu cerdyn a ddefnyddir gan Gymdeithas y Cerddwyr ar gyfer aelodau yn nodi eu manylion cyswllt mewn argyfwng ac unrhyw gyflwr meddygol sydd ganddynt. Cedwir y cerdyn mewn amlen blastig i'w warchod rhag y tywydd ar gyfer ei gario ar dop y sach cerdded fel ei fod wrth law pe byddai argyfwng ac angen y wybodaeth berthnasol. Bu'n dosbarthu fersiwn o'r cerdyn wedi ei addasu i ddibenion y Clwb i aelodau yn mynychu teithiau preswyl yr oedd yn eu trefnu. Holodd a oedd y Pwyllgor yn credu y dylid ystyried dosbarthu fersiwn o'r cerdyn mewn amlen blastig i holl aelodau'r Clwb ar gyfer eu cario yn eu sachau pan yn mynychu teithiau.<br><br>Nodwyd fod y Clwb wedi cyflwyno fersiwn o'r math yma o gerdyn flynyddoedd yn ôl ond gan ei fod ar ffurf papur nad oedd wedi bod yn ymarferol i wrthsefyll tywydd garw.<br><br>Cytunwyd<br>i. gofyn i KR, pan yn gyfleus iddo, yrru enghraifft o'r cerdyn i aelodau'r Pwyllgor gael ei weld<br>ii. gofyn i KR holi Gwasg Dwyfor am amcangyfrif o 'r gost o gynhyrchu oddeutu 250-300 o gardiau o'r fath a'r amlenni plastig<br>ii. bydd y Pwyllgor yn ystyried y mater yn y cyfarfod nesaf. | DH<br><br>KR |
| **3.** | **MATERION ARIANNOL**<br><br>Cafwyd diweddariad gan DAP ynglŷn â'r sefyllfa gyfredol<br><br>Adroddodd<br><br>• bod gan y Clwb aelodaeth o 274<br>• bod gan y Clwb swm o £5,730 yn y coffrau ar hyn o bryd | |

| | | |
|---|---|---|
| | • bod yr arian yn y coffrau wedi gostwng yn sylweddol ers 2023 ac y byddai angen ystyried o ddifri codi'r tâl aelodaeth yn y Cyfarfod Blynyddol nesaf.<br><br>Cytunwyd nodi'r wybodaeth. | |
| **4.** | **<u>TÂL AELODAETH 2026</u>**<br><br>Cadarnhaodd DAP na chafwyd unrhyw wybodaeth hyd yma gan y CMP am y taliad blynyddol a wneir tros bob aelod gan y Clwb i'r CMP, sy'n cynnwys yswiriant ar gyfer 2026. Roedd rhagdybiaeth y byddai'n codi ac yn ei gyfarfod diwethaf roedd y Pwyllgor wedi penderfynu, os na fyddai'r wybodaeth wedi ei derbyn mewn da bryd ar gyfer y cyfarfod yma, y dylid cynnal cyfarfod brys pan geir y wybodaeth berthnasol fel y gellir gwneud argymhelliad ar dâl aelodaeth 2026 i'r Cyfarfod Blynyddol ym mis Tachwedd.<br><br>Cytunwyd nodi'r wybodaeth. | |
| **5.** | **<u>CYFARFOD BLYNYDDOL 2025</u>**<br><br>Adroddodd IPR fod trefniadau wedi eu gwneud i gynnal y cyfarfod yng Ngwesty'r Royal Oak ym Metws y Coed ar ddydd Sadwrn 15 Tachwedd ac y bydd mwy o wybodaeth yn cael ei yrru i aelodau maes o law.<br><br>Cytunwyd nodi'r wybodaeth. | |
| **6.** | **<u>CYNLLUNIO RHAGLEN WEITHGAREDDAU'R CLWB</u>**<br><br>Adroddodd RR fel a ganlyn:<br><br>• bod y rhaglen ar gyfer y cyfnod Medi i Rhagfyr bellach yn ei lle gyda 23 o deithiau ar y Sadwrn, 3 ar ddydd Mercher a 2 daith fisol yn y de a nododd ei ddiolch i bawb oedd wedi cytuno i arwain teithiau.<br><br>• bod amrywiaeth dda o deithiau yn cael eu cynnig gyda 4 wedi eu graddio yn ddu, 4 yn goch, 12 yn wyrdd , 4 yn felyn a 2 yn wen<br><br>• bod dwy daith wersylla wedi eu cynnwys, un ar y Mynyddoedd Duon yn y de a'r llall ar y Carneddau yn y gogledd<br><br>• hefyd bod taith flasu ar Gader Idris o dan arweiniad SW ar y rhaglen.<br><br>• Atgoffodd DAP bod unrhyw ddarpar aelod fyddai yn ymaelodi â'r Clwb ar ôl bod ar y daith flasu yn niwedd Medi ac yn talu tâl aelodaeth ym mis Hydref , yn aelod am weddill y flwyddyn bresennol a hefyd am 2026.<br><br>• Nododd DH ei fod am barhau i gynnig dwy daith fisol yn y de (yn hytrach nag un) tan ddiwedd y flwyddyn a byddai'n adolygu'r sefyllfa wedi hynny.<br><br>Cytunwyd<br><br>i. diolch i RR am ei holl waith yn paratoi'r rhaglen weithgareddau ac i bawb oedd wedi gwirfoddoli i arwain teithiau'r Clwb<br><br>ii. gofyn i SW sôn am yr hyn a grybwyllwyd gan DAP uchod wrth unrhyw ddarpar aelodau ar y daith flasu ar Cader Idris. | SW |
| **7.** | **<u>ARCHIF Y CLWB</u>** | |

| | | |
|---|---|---|
| | A. Cytunwyd y byddai SW A DAP yn cymharu'r deunydd yn eu meddiant (rhai SW ar ffurf dogfennau papur a rhai DAP mewn ffurf digidol ar go bach) er mwyn asesu faint o waith sganio dogfennau fydd ei angen cyn eu trosglwyddo i'r Llyfrgell Genedlaethol gan y gallasent fod o ddefnydd i'r Clwb erbyn 2029 pan fydd yn dathlu hanner can mlwyddiant.<br><br>B. Holodd IAG a ddylid ystyried y syniad o gael amgueddfa yn olrhain hanes mynydda yng Nghymru.<br><br>Cytunwyd y gellid ystyried hyn yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ar ôl i aelodau gael cyfle i gnoi cil dros y mater. | |
| **8.** | **<u>EISTEDDFOD GENEDLAETHOL 2026</u>**<br><br>Ystyriwyd trefniadau ar gyfer Eisteddfod 2026<br><br>Cynigwyd<br>A. bod DP a Gerallt yn cyflwyno'r ddarlith ac yn trafod eu hanturiaethau yn cerdded o Munchen i Venezia yn ystod haf eleni<br>B. a allai Richard Mitchley, a fu'n arwain teithiau ar fynyddoedd y Preseli , arwain y daith gerdded<br><br>Cytunwyd<br>i. y byddai DP yn cael gair efo Gerallt ac adrodd yn ôl os y byddent yn fodlon rhoi'r ddarlith<br>ii. gofyn i DH a EJ holi Richard Mitchley a fyddai'n fodlon arwain y daith yn ystod wythnos yr Eisteddfod. | DP<br><br>DH/EJ |
| **9.** | <u>RHESTR OFFER</u><br><br>A. Cyffredinol<br><br>Cyflwynwyd rhestr o offer y Clwb gan DAP a gofynnodd am arweiniad am bwrpas gosod y rhestr ar y wefan.<br><br>Cytunwyd mai ond y rhestr o lochesi a diffibrilyddion y dylid eu cyhoeddi ar y Wefan<br><br>B. Llochesi<br><br>Adoddodd DP ei bod wedi derbyn lloches a oedd ym meddiant Gareth Everett a'i bod yn lloches 4-6 unigolyn ac felly yn llai na'r un 8-10 unigolyn sydd yn cael ei throsglwyddo gyda'r diffibrilydd ar hyn o bryd. Hefyd roedd wedi derbyn pecyn bychan cymorth cyntaf Gareth<br><br>Cytunwyd<br>i. mai'r lloches i 4-6 unigolyn ddylai gael ei throsglwyddo gyda'r diffibrilydd i arweinyddion teithiau o hyn ymlaen<br>ii. cadarnhau mai dewis yr arweinydd yw os am gario lloches ar y daith neu beidio<br>iii. gallasai amgylchiadau godi (e.e. amodau gaeafol) lle bod arweinydd o'r farn fod angen mwy nag un lloches ar ei daith ac y gallai ofyn am loches arall gan yr aelodau hynny sy'n eu cadw (y wybodaeth i'w gael oddi ar y rhestr ar y wefan)<br>iv. gofyn i DAP gadarnhau sut fath o lochesi'r Clwb sydd ym meddiant yr aelodau<br>v. gofyn i DP drosglwyddo'r pecyn cymorth cyntaf i MW<br>vi. gofyn i RR ddiwygio'rcanllawiau i arweinyddion ar y llinellau uchod | DAP<br>DP<br>RR |
| **10.** | **<u>MATERION CMP</u>**<br><br>Gofynnodd SW am arweiniad y Pwyllgor ynglŷn â'r drafodaeth yn y CMP am y defnydd o | |

| | | |
|---|---|---|
| | enwau Cymraeg a Saesneg yn y byd dringo<br><br>Cytunwyd<br>i. nodi gwrthwynebiad cryf a llwyr y Clwb i unrhyw ddefnydd o enwau Saesneg ar nodweddion tirluniau Cymru sydd ag enwau Cymraeg cynhenid arnynt a bod hyn yn cynnwys unrhyw ymgyrch i ail-enwi ponciau yn chwarel Llanberis sydd eisoes ag enwau Cymraeg cynhenid arnynt<br>ii. gyda dringfeydd, nodi fod y sefyllfa yn wahanol. Gan fod dringfa wedi ei datblygu gan ddringwr/wyr unigol eu bod wedyn yn rhoi enw o'u dewis ar y ddringfa berthnasol | |
| **11.** | **<u>MATERION Y BARTNERIAETH AWYR AGORED</u>**<br><br>Adroddodd DP bod Sian Williams bellach wedi gadael y bartneriaeth ac ymddengys bod cyfrifoldebau ei swydd wedi eu rhannu ymysg swyddogion eraill y mudiad. Ni chafwyd cais am y swm o £500 sydd ar gael ar gyfer hyfforddiant eleni a chan fod Sian wedi gadael doedd hi ddim yn glir bellach os y gellid parhau â'r arferiad o drosglwyddo unrhyw arian heb ei wario i'r flwyddyn ganlynol.<br><br>Cytunwyd gofyn i RR sôn yn un o'i negeseuon i'r aelodau bod arian ar gael i helpu efo unrhyw hyfforddiant fyddai o fudd i'r Clwb megis cyrsiau cymorth cyntaf neu hyfforddiant arweinydd mynydd . | RR |
| **12.** | **<u>POLISIAU PREIFATRWYDD A CHANLLAWIAU ARWEINWYR TEITHIAU</u>**<br><br>Adolygwyd y polisïau canlynol er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn cwrdd â gofynion, yn unol â phenderfyniad diweddar y Pwyllgor:<br><br><u>Polisi Preifatrwydd.</u><br><br>Cytunwyd<br>i. derbyn bod y polisi yn gyfredol ond nodi y gall arweinyddion teithiau gadw gwybodaeth am aelodau yn mynychu eu teithiau ar ffurf electroneg yn ogystal ag ar bapur<br>ii. dylid anfon e-byst i'r aelodau ar ffurf guddiedig<br>iii. gofyn i IAG osod y polisi yma gyda pholisïau eraill y Clwb ar y wefan<br><br><u>Chanllawiau Arweinwyr Teithiau</u><br><br>Adolygwyd y canllawiau.<br><br>Cytunwyd gofyn i RR ddiwygio'r canllawiau fel a ganlyn<br><br>i. bod disgwyl i arweinyddion gario diffibrilydd ar eu teithiau ac yna ei drosglwyddo i arweinydd y daith nesaf<br>ii. diwygio cymal 5 i ddweud y bydd lloches yn cael ei drosglwyddo i'r arweinydd efo diffibrilydd ac mai mater i'r arweinydd yw os am ei gario ar y daith. Os bydd yr arweinydd yn credu y bydd o fudd i gario mwy nag un lloches ar y daith, megis oherwydd amodau gaeafol, yna gellir benthyg un o lochesi'r Clwb sydd yn meddiant nifer o aelodau. Bydd manylion rhain ar gael ar wefan y Clwb<br>iii. parthed cymal i a ii uchod gellir gofyn am gymorth aelodau eraill ar y daith i gario'r offer yma<br>iv. dileu cyfeiriadau at Eryl (cyn ysgrifennydd gweithgareddau) yn y ddogfen a chynnwys ei fanylion ef, RR. | IAG<br><br>RR |
| **13** | **<u>YMGYRCH I GASGLU ENWAU CYMRAEG</u>**<br><br>Adroddwyd na chafwyd unrhyw ddiweddariad pellach. | |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| **14.** | **<u>GOHIRIO TEITHIAU</u>**<br><br>Cytunwyd os yw Arweinydd un o deithiau'r Clwb yn y de neu'r gogledd, am ba bynnag reswm, yn penderfynu gohirio taith mewn da bryd (sef erbyn y dydd Iau) y dylid gofyn i RR yrru e-bost i'r holl aelodau i'w hysbysu o hynny ond os yw'r gohiriad yn un munud olaf am resymau penodol yna ni fyddai hyn yn bosibl ac fe fyddai yn rhaid i'r arweinydd hysbysu pawb oedd wedi cysylltu gydag ef/hi. | |
| **15.** | **<u>CAIS UNIGOLYN</u>**<br><br>Adroddodd EH ei bod wedi derbyn cais ar ran gŵr o Wcrain, sy'n byw am y tro efo teulu fferm lleol, sydd â diddordeb mewn mynydda ond yn teimlo'n nerfus i fynd allan ei hun, a fyddai rhywun yn fodlon ei gynorthwyo trwy gydgerdded ag ef i'w gyflwyno i fynyddoedd Eryri. Gofynnodd am ganiatad i roi neges ar fforwm y Clwb ar Whatsapp yn cyfeirio at hyn<br><br>Cytunwyd i'r cais | |
| **16.** | **<u>CYFARFOD NESAF Y PWYLLGOR</u>**<br><br>Cytunwyd y bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn cael ei gynnal am 8pm, nos Lun 12 Ionawr, 2026, drwy gyfrwng Zoom. | |